MEINI PRAWF CYMERADWYO AR GYFER CYMWYSTERAU TAG UG A SAFON UWCH

GORFFENNAF 2016

Cynnwys

	Tudalen
Cyflwyniad	1
Cynnwys	2
Pwrpas	2
Cynnwys Pwnc	2
Asesu	3
Cyflwyno Cymwysterau i'w Cymeradwyo	4
Teitlau	5
Cofnodi	5

Cyflwyniad

1. Mae hon yn **Ddogfen Reoleiddiol** o dan **Amod B7** o'r *Amodau Cydnabod Safonol Interim: Cydymffurfio â Dogfennau Rheoleiddiol*[1].

2. Mae'r meini prawf cymeradwyo hyn, ynghyd â'r *Amodau Cydnabod Safonol Interim*[1], a'r meini prawf cymeradwyo pwnc, yn nodi'r gofynion ar gyfer pob manyleb TAU, UG a Safon Uwch newydd a gymeradwyir i'w dyfarnu o fis Medi 2017.

3. Lle bydd gofynion y meini prawf cymeradwyo pwnc yn wahanol i'r gofynion yn y ddogfen hon, gofynion y meini prawf cymeradwyo pwnc fydd yn cael blaenoriaeth.

[1] http://qualificationswales.org/regulation/monitoring-awarding-bodies/?lang=cy&

Cynnwys

Pwrpas

4. Rhaid i gymwysterau UG a Safon Uwch helpu i gyflwyno cwrs astudio heriol a pherthnasol a sicrhau y bydd gan ddysgwyr sy'n eu cyflawni'r wybodaeth a'r sgiliau priodol ar gyfer astudio a chyflogaeth yn y dyfodol.

5. Rhaid i gymwysterau UG a Safon Uwch sicrhau y bydd dysgwyr sydd wedi'u cyflawni wedi'u paratoi'n dda ar gyfer mynd ymlaen i lefel astudio uwch yn yr un pwnc, neu bwnc cysylltiedig.

6. Rhaid i gymwysterau UG a Safon Uwch, lle y bo'n briodol, gefnogi cyfleoedd i ddatblygu sgiliau a asesir drwy Fagloriaeth Cymru.

Cynnwys pwnc

7. Rhaid i gynnwys pwnc cymwysterau UG wneud y canlynol:

   7.1. darparu cydbwysedd priodol o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth sy'n cyfateb i flwyddyn gyntaf cwrs astudio Safon Uwch llawn;

   7.2. galluogi ymgeiswyr i gael eu hasesu, fel arfer drwy ddwy uned asesu a fydd, o'u cymryd gyda'i gilydd, yn gyfystyr â 40 y cant o'r cymhwyster Safon Uwch llawn;

   7.3. cynnwys, lle y bo'n briodol, safbwynt Cymreig yn y cynnwys a/neu'r asesiad;

   7.4. sicrhau dilyniant addas o'r rhaglen astudio berthnasol yng Nghyfnod Allweddol 4;

   7.5. sicrhau bod dysgwyr sy'n cyflawni'r cymhwyster wedi'u paratoi'n dda ar gyfer mynd ymlaen i unedau gwaith A2 yn yr un pwnc;

   7.6. sicrhau bod lefel y gofynion her yn cyfateb yn fras i gymwysterau UG eraill yn y DU.

8. Rhaid i gynnwys pwnc asesiadau A2, a fydd yn arwain at ddyfarnu cymhwyster Safon Uwch llawn a'u gyfuno ag asesiad UG, fodloni'r canlynol:

   8.1. darparu cydbwysedd priodol o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth sy'n cyfateb yn fras i ail hanner cwrs astudio Safon Uwch llawn;

   8.2. galluogi ymgeiswyr i gael eu hasesu, fel arfer drwy ddwy uned asesu a fydd, gyda'i gilydd, yn gyfystyr â 60 y cant o'r cymhwyster Safon Uwch;

   8.3. cynnwys, lle y bo'n briodol, safbwynt Cymreig yn y cynnwys a/neu'r asesiad;

8.4. ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr wneud cysylltiadau rhwng gwahanol feysydd gwybodaeth a/neu ddealltwriaeth o rannau o gynnwys cwrs UG ac A2;

8.5. sicrhau bod y lefel gofynion yn cyfateb yn fras i gymwysterau Safon Uwch eraill yn y DU.

Asesu

9. Rhaid i ddyluniad pob cymhwyster UG a Safon Uwch sicrhau'r canlynol:

9.1. bod y lefel a gyrhaeddir yn adlewyrchu'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth a ddangosir yn yr asesiadau;

9.2. gall dysgwyr gael mynediad i'r ystod lawn o raddau.

10. Rhaid i'r trefniadau asesu ar gyfer UG a Safon Uwch sicrhau'r canlynol:

10.1. cynnig y cyfle i ymgeiswyr gael eu hasesu ar ddiwedd yr UG a'r Safon Uwch, ond yn ystod cyfnod asesu'r haf yn unig;

10.2. sicrhau bod yr asesiad UG yn cyfrannu 40 y cant tuag at y cymhwyster Safon Uwch llawn a bod yr asesiad A2 yn cyfrannu 60 y cant at y cymhwyster Safon Uwch llawn;

10.3. nodi'r gydberthynas rhwng yr amcanion asesu a'r unedau a thasgau asesu;

10.4. cynnwys cwestiynau neu dasgau sy'n caniatáu i ddysgwyr wneud cysylltiadau rhwng gwahanol elfennau o'r pwnc, a dangos eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ohonynt, ar draws cwrs astudio llawn y cymhwyster hwnnw; yn A2 mae hyn yn cynnwys dwyn elfennau o gynnwys cwrs UG ac A2 ynghyd;

10.5. dylid cynnwys cwestiynau neu dasgau sy'n rhoi cyfleoedd i ddysgwyr arddangos eu gallu i wneud y canlynol:

10.5.1. integreiddio a chymhwyso eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau ar draws gwahanol agweddau ar y testun;

10.5.2. llunio ymateb sy'n datblygu llinell resymu barhaus, sy'n gydlynus, perthnasol, cynhwysfawr ac sydd wedi'i strwythuro'n rhesymegol.

10.6. lle y bo'n briodol, gynnwys cwestiynau sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr lunio ymatebion ysgrifenedig estynedig a dangos ansawdd eu cyfathrebu ysgrifenedig, gan gynnwys defnydd priodol o atalnodi a gramadeg;

10.7. cael gofynion cymaradwy i bob ymgeisydd, gan gynnwys lle mae unedau asesu dewisol neu gwestiynau arholi dewisol;

10.8. dim ond defnyddio asesiadau nas cynhelir drwy arholiad[2] os mai dyna yw'r dull mwyaf priodol o asesu cynnwys ac y caiff ei ganiatáu gan y meini prawf cymeradwyo pwnc.

10.9. Caniatáu ailsefyll uned asesu dim ond unwaith, gyda'r canlyniad gwell yn cyfrif tuag at y cymhwyster.

11. Rhaid i gynlluniau marcio asesu:

11.1. sicrhau bod disgrifyddion yn ddigon gwrthrychol, yn fesuradwy ac yn dangos dilyniant clir ar draws gwahanol lefelau;

11.2. nodi sut mae'r marciau sydd ar gael ar gyfer pob cwestiwn neu dasg asesu yn gysylltiedig â'r amcan(ion) asesu.

Cyflwyno cymwysterau i'w Cymeradwyo

12. Wrth gyflwyno cymhwyster UG a Safon Uwch i Cymwysterau Cymru i'w Gymeradwyo, rhaid i gorff dyfarnu ddarparu dogfen fanyleb, deunyddiau asesu enghreifftiol a dogfen esboniadol sy'n esbonio'r rhesymeg dros nodweddion allweddol o ddyluniad y cymhwyster arfaethedig (dogfen resymeg). Diben y ddogfen resymeg yw cynorthwyo'r adolygiad cymhwyster a'r broses Gymeradwyo ac ni fwriedir iddi gael ei chyhoeddi.

13. Rhaid i'r ddogfen resymeg gynnwys esboniad ar gyfer:

13.1. strwythur y cymhwyster, gan esbonio'r rhesymau dros y ffordd y cafodd y cynnwys ei strwythuro;

13.2. cynnwys y cymhwyster (lle na nodir hyn yn y ddogfen meini prawf cymeradwyo); er enghraifft, lle bydd pynciau, testunau neu awduron penodol wedi'u cynnwys, eglurhad o'r ffordd y cafodd y rhain eu dewis a pham;

13.3. sut y cafodd y gofyniad am safbwynt Cymreig ei fodloni a sut mae'r dull gweithredu yn briodol i'r pwnc;

13.4. y strwythur asesu, gan gynnwys nifer, pwysoliad, dyraniad marciau a hyd unedau / cydrannau asesu;

13.5. sut y pennwyd gwasgariad amcanion asesu ar draws y cwestiynau asesu ac oddi mewn iddynt;

[2] Yn y ddogfen hon ac yn y meini prawf Cymeradwyo pwnc ar gyfer cymwysterau TAG Uwch Gyfrannol a Safon Uwch, rydym yn diffinio 'asesiad drwy arholiad' fel un:

a) wedi ei osod gan gorff dyfarnu,
b) wedi ei ddylunio i'w sefyll ar yr un pryd gan bob dysgwr ar amser a bennwyd gan y corff dyfarnu, ac
c) a gaiff ei sefyll dan amodau a bennwyd gan y corff dyfarnu (gan gynnwys amodau'n ymwneud â goruchwylio dysgwyr yn ystod yr asesiad, a gyda hyd yr asesiad).

Rydym yn cyfeirio at unrhyw fath o asesiad nad sydd yn cwrdd â'r diffiniad hwn fel 'asesiad nas cynhelir drwy arholiad'.

13.6. dyluniad deunyddiau asesu enghreifftiol, gan gynnwys y math o dasgau asesu a'r amrywiaeth ohonynt sydd wedi'u cynnwys ymhob elfen a'u perthynas â'r amcanion asesu;

13.7. dyluniad cynlluniau marcio a sut y cânt eu cymhwyso.

Teitlau

14. Rhaid i deitlau cymwysterau UG a Safon Uwch ddefnyddio'r geiriau ‘TAG UG’ neu ‘TAG Safon Uwch’ ;

Cofnodi

15. Rhaid bod trefniadau ar gyfer graddio cymwysterau TAG UG a TAG Safon Uwch a'u cofnodi i sicrhau bod:

15.1. cyrhaeddiad sy'n ddigonol i arwain at ddyfarnu tystysgrif ar Safon UG yn cael ei gofnodi ar raddfa pum gradd o A* i E, lle mae A* yw'r uchaf;

15.2. cyrhaeddiad sy'n ddigonol i arwain at ddyfarnu tystysgrif ar Safon Uwch yn cael ei gofnodi ar raddfa chwe gradd o A* i E, lle mae A* yw'r uchaf;

15.3. cyrhaeddiad sy'n annigonol i arwain at ddyfarnu tystysgrif ar Safon UG neu Safon Uwch yn cael ei gofnodi fel Annosbarthedig (Unclassified) neu U.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon at:

Ymholiadau
Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2
Lôn Pencarn
Parc Imperial
Coedcernyw
Casnewydd
NP10 8AR

ymholiadau@cymwysteraucymru.org